**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Y Gangen Dysgu Proffesiynol
Yr Is-adran Ymarferwyr Ysgolion
Grŵp Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg
Llywodraeth Cymru

Trwy e-bost: AdolygiadSafonauProffesiynol@llyw.cymru

26/01/2026

Annwyl Gyfaill,

**Ymgynghoriad: Safonau proffesiynol diwygiedig ar gyfer cynorthwyo addysgu, addysgu ac arweinyddiaeth**

Diolch am y cyfle i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad uchod. Mae ein hymateb yn canolbwyntio ar y safonau proffesiynol dan sylw yng nghyd-destun y Gymraeg.

Fel y gwyddoch, mae Gweinidogion Cymru yn ddarostyngedig i'r safonau llunio polisi o dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol iddynt roi ystyriaeth gydwybodol i effeithiau cadarnhaol ac andwyol penderfyniadau polisi ar y Gymraeg—gan gynnwys eu heffaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid iddynt hefyd ystyried sut y gellid llunio neu ddiwygio'r polisi er mwyn cynyddu'r effeithiau cadarnhaol ar yr iaith, a sut y gellid osgoi neu leihau unrhyw effeithiau andwyol.

Croesawn y bwriad i gynnwys y Gymraeg yn yr ymrwymiadau proffesiynol arfaethedig, gan gyfeirio at gefnogi strategaeth *Cymraeg 2050* drwy ymgorffori'r Gymraeg ym mhob rhan o'r cwricwlwm a diwylliant ysgolion a rhoi cyfle i bob dysgwr a gweithiwr proffesiynol ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus. Fodd bynnag, byddem wedi disgwyl gweld cyfeiriadau pellach at y Gymraeg yn y ddogfen, gan gynnwys Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 a'i goblygiadau.

Mae pwysigrwydd y Gymraeg yn y gyfundrefn addysg yn glir mewn polisi a deddfwriaeth. Mae sicrhau cynnydd sylweddol yn y niferoedd sy'n datblygu'n siaradwyr Cymraeg drwy'r gyfundrefn addysg yn un o gonglfeini *Cymraeg 2050*. Yn sgil Deddf y Gymraeg ac Addysg, disgwylir newidiadau pellgyrhaeddol ym maes addysg er mwyn cyrraedd y nod y bydd yr holl ddysgwyr yng Nghymru, erbyn diwedd eu cyfnod o addysg orfodol, yn ddefnyddwyr

**Comisiynydd y Gymraeg**
Uned 2, Bloc C
Doc Fictoria
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg**

comisiynyddygymraeg.cymru

**Welsh Language Commissioner**
Unit 2, Block C
Victoria Dock
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
**Correspondence welcomed in Welsh and English**

welshlanguagecommissioner.wales

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Cymraeg annibynnol. Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, mae'n angenrheidiol creu cynnydd mawr yn y gweithlu addysg sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rhaid canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu addysg mewn modd cadarnhaol. Er mwyn cefnogi hyn, dylid pwysleisio pwysigrwydd y Gymraeg yn y safonau proffesiynol. Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos bod y safonau diwygiedig wedi eu gwanhau yng nghyd-destun y Gymraeg gan nad ydynt yn cyfeirio at y Gymraeg o gwbl. **Mae'n hanfodol eu cryfhau, a chynnwys dulliau penodol o ymgorffori'r Gymraeg o fewn cwricwlwm a diwylliant ysgolion a galluogi dysgwyr a gweithwyr proffesiynol i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus.**

Yn wahanol i'r safonau diwygiedig, mae'r safonau proffesiynol cyfredol, ar lefel arweinwyr, athrawon a chynorthwywyr addysgu, yn cynnwys cyfeiriadau penodol at y Gymraeg.[1] Gwelir y rhain, i arweinwyr ac athrawon, dan y safon Addysgeg, yn yr adrannau 'Sgiliau Cymraeg' a 'Helpu eraill y dyfu'. I gynorthwywyr addysgu, fe'u gwelir dan y safon Dysgu proffesiynol, yn adran 'Y Gymraeg a diwylliant Cymru'. Maent yn cynnwys:

- arweinwyr yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ac yn gosod esiampl drwy ddysgu Cymraeg
- athrawon yn defnyddio ac yn ehangu eu dealltwriaeth a'u sgiliau Cymraeg
- cynorthwywyr addysgu yn gwella eu sgiliau Cymraeg ac yn annog brwdfrydedd ymysg dysgwyr.

Gosodir targedau yn *Cymraeg 2050* i gynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu Cymraeg neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Erbyn 2031 y nod yw sicrhau 3,900 o athrawon cynradd a all addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a 4,100 o athrawon uwchradd a all addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, mae bwlch sylweddol i'w lenwi os am gyrraedd y targedau hyn mewn pryd. Yn ôl adroddiad blynyddol *Cymraeg 2050* ar gyfer 2023/24 roedd 2,792 o athrawon cynradd a 2,549 o athrawon uwchradd oedd yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r diffyg cynnydd yn y cyd-destun hwn wedi bod yn bryder i'r Comisiynydd ers blynyddoedd.[2]

Mae'n ddadlennol bod y Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion ar gyfer Tachwedd 2023 yn dangos mai ychydig iawn o newid cadarnhaol a welwyd dros y tair blynedd blaenorol yn lefelau sgiliau Cymraeg holl athrawon Cymru. Roedd y data hefyd yn dangos nad oedd gan nifer uchel o athrawon mewn rhai awdurdodau lleol sgiliau Cymraeg o gwbl, neu bod ganddynt sgiliau ar lefel mynediad.[3] Yn ôl ystadegau Cyngor y Gweithlu Addysg ar gyfer 2025 mae 33.4% o athrawon ysgol yn siarad Cymraeg a 26.9% yn gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, a does dim llawer o newid o flwyddyn i flwyddyn. O ran gweithwyr

---

[1] Safonau proffesiynol - Hwb
[2] Comisiynydd y Gymraeg: *Y Gymraeg a'r gweithlu addysg statudol yng Nghymru*
[3] Llywodraeth Cymru: *Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg: dadansoddiad data – Diweddariad 2024*

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

cymorth dysgu ysgol, 21.0% sy'n gallu siarad Cymraeg ac 17.9% sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg.[4]

Mae angen newid y darlun ystadegol hwn yn sylweddol os am wireddu uchelgais Llywodraeth Cymru. Bydd rhaid dwysáu'n fawr y cynlluniau i gefnogi'r athrawon a'r gweithwyr cymorth hyn, a gweithlu'r dyfodol, i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ac i gynyddu'n sylweddol y nifer sy'n defnyddio'r Gymraeg wrth addysgu a chynorthwyo addysgu. Nodir yn y ddogfen ymgynghori bod defnyddio'r safonau wrth adolygu datblygiad proffesiynol yn cynnig proses ffurfiol o gydnabod llwyddiant a chanolbwyntio ar dwf proffesiynol. Mae'n hollbwysig bod datblygu sgiliau Cymraeg yn rhan greiddiol o'r broses hon. Dylai hyfforddiant iaith Gymraeg fod yn rhan hanfodol o ddatblygiad proffesiynol parhaus y gweithlu addysg. Mae angen cyfleu'r neges hon yn y safonau proffesiynol diwygiedig. O fethu â chynnwys y Gymraeg yn y safonau, mae risg na fydd yr iaith yn cael y sylw sydd ei angen i alluogi gweithwyr proffesiynol a'r dysgwyr y maent yn eu cefnogi i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus.

Nodir yn y ddogfen ymgynghori y cynhelir ymgynghoriad yn yr hydref 2026 ar y safonau diwygiedig ar gyfer Statws Athro Cymwysedig (SAC). Dylid sicrhau y caiff y safonau hynny eu cryfhau hefyd, gan bwysleisio pwysigrwydd y Gymraeg i ddarpar athrawon ar ddechrau eu gyrfa.

Gobeithio y bydd y sylwadau uchod o gymorth i'r ymgynghoriad. Mawr obeithiaf weld y safonau hyn yn cael eu cryfhau er mwyn cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru, fel y'i mynegir yn Neddf y Gymraeg ac Addysg a *Cymraeg 2050*.

Yr eiddoch yn gywir,

**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg

[4] Cyngor y Gweithlu Addysg: [Ystadegau Blynyddol y Gweithlu Addysg yng Nghymru 2025]